Ysgol Garth Olwg
Campws Cymunedol Garth Olwg
Y Brif Ffordd
Pentre'r Eglwys
Pontypridd
CF38 1DX

Ysgol Garth Olwg
Garth Olwg Community Campus
Main Road
Church Village
Pontypridd
CF38 1DX

20.09.19

Annwyl Dillon,

Braint yw cael ysgrifennu pwt o lythyr i dy longyfarch yn fawr ar gael dy ddewis i garfan Cymru ar gyfer Cwpan y Byd.

Mae'r bwrlwm yn dechrau codi yn yr ysgol yn barod ar gyfer bore Llun lle bydd gwersi yn dod i stop i nifer o ddisgyblion a staff, fel ein bod yn medru cefnogi eich ymgyrch. Fel mae'n digwydd daeth tlysau'r Chwe Gwlad ar daith i'r ysgol heddiw ac roedd hi'n braf iawn gweld plant o bob oedran yn cael llun gyda'r Cwpan a Tharian y Goron Driphlyg. Fodd bynnag roedd pawb yn siarad am Gwpan y Byd, ac yn cyfeirio'n gynnes iawn atat ti. Rydym yn falch iawn ohonot ti ac yn dymuno pob llwyddiant i ti ac i'r tîm yn Siapan.

Ymlaen Cymru Ymlaen!

Cofion cynnes,

Trystan Edwards.
Prifathro

PRIFATHRO | HEADTEACHER
Mr Trystan Edwards BSc, CPCP
(01443) 57 00 57 gweinyddol@gartholwg.cymru gartholwg.cymru